Comisiwn
Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Equality and Human Rights Commission

Rhwydweithiau, cymdeithasol a chydberthnasau

Pwy ydych chi'n ei weld?

Byw gyda'n gilydd yng Nghymru

Canfyddiadau Allweddol

- Ar y cyfan, mae cymdeithas yng Nghymru wedi'i hintegreiddio'n dda.
- Roedd tuedd mai pobl ifanc, y rhai a adawodd addysg yn hwyrach a'r rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch oedd â'r rhwydweithiau cymdeithasol mwy amrywiol.
- Roedd y rhan fwyaf o bobl yn fodlon ar aelodau o'r teulu yn ffurfio perthynas â rhywun o gefndir ethnig gwahanol, rhywun â chrefydd wahanol, rhywun ag anabledd dysgu.
- Byddai nifer sylweddol o bobl yng Nghymru yn anfodlon pe bai aelod o'r teulu yn ffurfio perthynas â cheisiwr lloches, Teithiwr sy'n Sipsi, rhywun â chyflwr iechyd meddwl neu rywun trawsryweddol (37% neu fwy ym mhob achos).

Rhwydweithiau cymdeithasol A chydberthnasau

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar y cwestiynau a ofynnwyd i archwilio i ba raddau y mae grwpiau lleiafrifol wedi'u hintegreiddio mewn cymdeithas yng Nghymru. Y rhwydweithiau cymdeithasol a archwiliwyd oedd teulu, ffrindiau a chydweithwyr.

Roedd cwestiynau eraill yn holi sut y byddai pobl yn teimlo pe bai perthynas agos iddynt yn priodi neu'n ffurfio perthynas hirdymor â rhywun o grŵp penodol.

Teulu a grwpiau cyfeillgarwch pobl

Ymddengys bod cymdeithas yng Nghymru wedi'i hintegreiddio'n dda. Dywedodd tua thri chwarter y boblogaeth eu bod yn adnabod rhywun a oedd:

- yn iau neu'n hŷn o 20 mlynedd neu fwy na hwy - 95 y cant.
- â chrefydd wahanol iddynt - 80 y cant
- yn dod o gefndir hiliol neu ethnig gwahanol - 77 y cant
- yn anabl - 74 y cant
- yn hoyw, yn lesbaidd neu'n ddeurywiol - 74 y cant.

Nid yw'n syndod bod y gyfran fwyaf o bobl a oedd yn adnabod rhywun a oedd ugain mlynedd yn iau neu'n hŷn na hwy, yn eu hadnabod am eu bod yn aelod o'u teulu (81 y cant). Mae'n galonogol nodi bod bron tri chwarter y boblogaeth (74 y cant) wedi dweud eu bod yn ffrindiau â rhywun o'r gwahaniaeth oedran hwn.

I bob grŵp arall y rheswm mwyaf cyffredin dros adnabod rhywun oedd cyfeillgarwch. Dengys y ffigurau canlynol ganran y boblogaeth yng Nghymru a ddywedodd eu bod yn ffrindiau â phobl o'r grwpiau canlynol:

- crefydd wahanol iddynt (64 y cant)
- cefndir hiliol neu ethnig gwahanol iddynt (60 y cant)
- yn hoyw, yn lesbaidd neu'n ddeurywiol (53 y cant)
- yn anabl (46 y cant)

Tabl 10.1 Rhwydweithiau cymdeithasol - pawb a oedd yn adnabod rhywun o grŵp penodol

	Sylfaen heb ei phwysoli, n =	*Sylfaen wedi'i phwysoli, n =*	*Rhywun sy'n iau neu'n hŷn na chi o 20 mlynedd (y cant)*	*Rhywun â chrefydd wahanol (y cant)*	*Rhywun o gefndir hiliol neu ethnig gwahanol i chi (y cant)*	*Rhywun sy'n anabl (y cant)*	*Rhywun hoyw, lesbaidd neu ddeurywiol (y cant)*
Oedd, pob un	***1,589***	***1,589***	**95**	**80**	**77**	**74**	**74**
Oedd, aelod o'ch teulu	*1,589*	*1,589*	81	30	14	32	15
Oedd, ffrind	*1,589*	*1,589*	74	64	60	46	53
Oedd, cydweithiwr	*1,589*	*1,589*	46	36	32	16	23
Oedd, rhywun arall	*1,589*	*1,589*	28	21	18	16	16
Na	*1,589*	*1,589*	5	18	22	26	25
Ddim yn gwybod/ wedi gwrthod	*1,589*	*1,589*	*	1	*	*	1

Noder: * yn dynodi llai na 0.5%

Pa fathau o bobl sy'n fwy tebygol o fod mewn grwpiau cymdeithasol amrywiol?

Roedd 95 y cant o boblogaeth Cymru yn adnabod rhywun a oedd yn iau neu'n hŷn na hwy o 20 mlynedd. Ychydig iawn o wahaniaethau demograffig oedd rhwng y rhai a oedd yn adnabod rhywun o'r grŵp hwn a'r rhai nad oeddent yn adnabod rhywun.

O ran y pedwar grŵp arall a archwiliwyd roedd rhai gwahaniaethau gwerth eu nodi. Roedd pobl o'r grwpiau oedran iau yn fwy tebygol o fod mewn grwpiau cymdeithasol amrywiol na phobl 65 oed, h.y. adnabod rhywun a oedd:

- o grefydd wahanol - 82 y cant o bobl 16-64 oed o gymharu â 75 y cant o bobl dros 65.
- o gefndir hiliol neu ethnig gwahanol iddynt - 81 y cant o bobl 16-64 oed o gymharu â 65 y cant o bobl dros 65
- yn hoyw, yn lesbaidd neu'n ddeurywiol - 80 y cant o bobl 16-64 oed o gymharu â 51 y cant o bobl dros 65.

O fewn hynny, y grŵp oedran ieuengaf oedd mewn grwpiau cymdeithasol mwyaf amrywiol: roedd pobl 16-34 oed yn llawer mwy tebygol o adnabod pobl o'r grwpiau hyn na'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd (gweler tabl 10.2).

Roedd unigolion nad oeddent yn wyn yn llawer mwy tebygol o adnabod pobl o gefndiroedd hiliol neu ethnig a chrefyddau gwahanol na phobl wyn Brydeinig neu Gymreig. Roedd tri chwarter neu fwy o bobl nad oeddent yn wyn yn ffrindiau â phobl o gefndiroedd ethnig gwahanol (77 y cant) neu grefyddau gwahanol iddynt hwy eu hunain (82 y cant) o gymharu â thua dau o bob tri o bobl o gefndir gwyn Prydeinig neu Gymreig (60 y cant a 64 y cant yn y drefn honno).

Dengys y canfyddiadau hyn rwydweithiau cymdeithasol mwy amrywiol, o ran ethnigrwydd a chrefydd, ymhlith pobl nad ydynt yn wyn. Fodd bynnag, mae hyn yn anochel o gofio bod oedolion nad ydynt yn wyn yn lleiafrif o boblogaeth Cymru.

Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, roedd pobl o gefndir gwyn Prydeinig/Cymreig yn fwy tebygol na phobl o grwpiau ethnig nad oeddent yn wyn o adnabod pobl a oedd:

- yn anabl (74 y cant o gymharu â 64 y cant o grwpiau ethnig nad ydynt yn wyn)
- yn hoyw, yn lesbaidd neu'n ddeurywiol (74 y cant o gymharu â 58 y cant o grwpiau ethnig nad ydynt yn wyn)

O ran dosbarth, gwelwyd gwahaniaeth clir iawn gyda'r rhai o ddosbarth cymdeithasol DE[1] a oedd yn llawer llai tebygol o fod yn rhan o rwydweithiau cymdeithasol amrywiol na'r cyfartaledd. Roeddent yn llai tebygol o adnabod pobl a oedd:

- o grefydd wahanol iddynt hwy (roedd 72 y cant o oedolion o gartrefi DE yn adnabod rhywun o'r grŵp hwn o gymharu ag 80 y cant o'r boblogaeth gyffredin)
- o gefndir hiliol neu ethnig gwahanol iddynt (65 y cant o gymharu â 77 y cant o'r boblogaeth gyffredinol)
- yn anabl (67 y cant o gymharu â 74 y cant o'r boblogaeth gyffredinol)
- yn hoyw, yn lesbaidd neu'n ddeurywiol (64 y cant o gymharu â 74 o'r boblogaeth gyffredinol).

Mewn gwrthwynebiad â hynny, roedd oedolion mewn cartrefi gradd gymdeithasol AB yn llawer mwy tebygol o gymysgu â phobl o gefndiroedd ethnig neu grefyddol gwahanol iddynt hwy eu hunain na'r boblogaeth gyffredinol. Roedd 86 y cant o oedolion AB yn adnabod pobl a oedd yn dod o gefndir ethnig gwahanol iddynt hwy ac roedd 90 y cant yn adnabod rhywun o grefydd wahanol iddynt, o gymharu â 77 y cant ac 80 y cant o'r boblogaeth gyffredinol yn y drefn honno.

Yn gysylltiedig â dosbarth cymdeithasol, roedd y rhai a orffennodd eu haddysg yn 19 oed neu'n hŷn yn fwy tebygol o adnabod pobl o gefndiroedd ethnig neu grefyddol gwahanol iddynt hwy eu hunain neu adnabod pobl a oedd yn hoyw, yn lesbaidd neu'n ddeurywiol na'r cyfartaledd. Dangosir y canlyniadau hyn yn nhabl 10.2.

Fel y gellid rhagweld, roedd gan y rhai a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda gwahanol fathau o bobl rwydweithiau cymdeithasol ehangach na'r rhai a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal lle roedd y rhan fwyaf o bobl yn debyg iddynt hwy. Roedd y grŵp olaf yn fwy tebygol o adnabod:

[1] Gweithwyr llaw lled-grefftus a di-grefft neu sy'n cael budd-daliadau/sy'n ddi-waith

- rhywun o grefydd wahanol (89 y cant o gymharu â 76 y cant o bobl y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda gwahanol fathau o bobl)
- rhywun o gefndir ethnig gwahanol iddynt hwy (88 y cant o gymharu â 61 y cant)
- rhywun a oedd yn anabl (79 y cant o gymharu â 66 y cant)
- rhywun a oedd yn hoyw, yn lesbaidd neu'n ddeurywiol (86 y cant o gymharu â 58 y cant).

Tabl 10.2 Rhwydweithiau cymdeithasol: Pawb a oedd adnabod rhywun ymhob grŵp unigol yn ôl is-grŵp demograffig.

	Sylfaen heb ei phwysoli , n =	*Sylfaen wedi'i phwysoli , n =*	*Rhywun sy'n iau neu'n hŷn na chi o 20 mlynedd (y cant)*	*Rhywun â chrefydd wahanol (y cant)*	*Rhywun o gefndir hiliol neu ethnig gwahanol i chi (y cant)*	*Rhywun sy'n anabl (y cant)*	*Rhywun hoyw, lesbaidd neu ddeurywiol (y cant)*
Cyfanswm	***1,589***	***1,589***	**95**	**80**	**77**	**74**	**74**
Dynion	*744*	*768*	94	80	80	73	73
Menywod	*845*	*821*	96	81	75	75	75
Oedran:16-34	*385*	*413*	93	83	87	74	84
35-54	*598*	*581*	96	82	80	79	80
55-64	*262*	*248*	95	80	74	73	74
65+	*344*	*347*	96	75	65	67	51
Gwyn	*1438*	*1555*	95	80	77	74	74
Prydeinig/Cymreig							
Arall	*151*	*34*	91	93	88	64	58
AB	*382*	*376*	97	90	86	76	80
C1	*533*	*538*	95	83	83	77	78
C2	*242*	*241*	96	76	73	76	74
DE	*428*	*431*	94	72	65	67	64
Parhau i fod mewn addysg	***78*	*92*	91	85	86	79	83
16 neu'n iau	*638*	*651*	95	74	70	71	68
17-18	*327*	*334*	96	81	76	76	73
19+	*544*	*511*	96	87	86	76	80
Gwahanol fathau o bobl	*236*	*231*	96	89	88	79	86
Pobl debyg	*337*	*342*	95	76	61	66	58
Dim barn bendant	*1005*	*1005*	95	80	81	76	77

Noder: ** yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli llai na 100

Perthynas hirdymor

Roedd y cwestiwn hwn yn ymwneud ag amgylchiadau cymharol bersonol. Felly, byddem yn disgwyl iddo ddatgelu tystiolaeth o agweddau gwahaniaethol lle mae safbwyntiau o'r fath yn bodoli.

Roedd agweddau'n amrywio gryn dipyn yn dibynnu ar y grŵp dan sylw. Cyfran gymharol fach o'r boblogaeth (11 y cant neu lai) a oedd ag agweddau negyddol tuag at y rhai â chrefydd wahanol, rhywun o gefndir ethnig gwahanol neu rywun ag anabledd dysgu.

Yn achos perthynas agos mewn perthynas hirdymor â rhywun o'r un rhyw â hwy eu hunain, roedd agweddau hefyd yn gymharol gadarnhaol o gymharu â grwpiau eraill; dywedodd mwy o bobl y byddent yn fodlon yn hytrach nag yn anfodlon ar hyn. Dywedodd 53 y cant y byddent yn fodlon o gymharu â thua chwarter yr oedolion (26 y cant) a ddywedodd y byddent yn anfodlon.

Roedd safbwyntiau ynglŷn â cheiswyr lloches, Sipsiwn/Teithwyr a'r rhai â chyflwr iechyd meddwl megis sgitsoffrenia neu iselder ysbryd yn fwy cymysg. Dywedodd cyfrannau tebyg o boblogaeth Cymru y byddent yn fodlon ac yn anfodlon ar y sefyllfa. Er enghraifft:

- ceisiwr lloches - dywedodd 37 y cant y byddent yn anfodlon o gymharu â 40 y cant a oedd yn fodlon
- Sipsiwn/Teithwyr - 38 y cant yn anfodlon o gymharu â 42 y cant yn fodlon
- rhywun â chyflwr iechyd meddwl - 37 y cant yn anfodlon o gymharu â 38 y cant yn fodlon.

Fodd bynnag, roedd agweddau gwahaniaethol yn fwy amlwg tuag at bobl a oedd yn drawsryweddol. Dywedodd y gyfran fwyaf o oedolion yng Nghymru y byddent yn anfodlon pe bai perthynas agos yn ffurfio perthynas hirdymor â rhywun o'r grŵp hwn - dywedodd 45 y cant y byddent yn anfodlon o gymharu â 33 y cant a fyddai'n fodlon.

Ffigur 10.1 Yn gyffredinol pa mor fodlon neu anfodlon fyddech pe bai perthynas agos i chi yn priodi neu'n ffurfio perthynas hirdymor â rhywun o grwpiau canlynol?



Sylfaen: Pob ymatebwr (1,589 heb eu pwysoli; 1,589 wedi'u pwysoli).

Gofynnwyd cwestiwn tebyg ar Arolwg 2006 o Agweddau Cymdeithasol yn yr Alban, gyda'r grwpiau canlynol yn gyffredin i'r astudiaethau yng Nghymru a'r Alban:

- ceisiwr lloches
- Sipsi/Teithiwr
- rhywun o'r un rhyw â hwy eu hunain
- rhywun ag anabledd dysgu.

Yn gyffredinol, roedd oedolion yng Nghymru yn fwy tebygol nag oedolion yn yr Alban o ddweud y byddent yn fodlon pe bai perthynas agos yn priodi neu'n ffurfio perthynas hirdymor â rhywun o un o'r grwpiau hyn (gwahaniaeth o 11 pwynt canran neu fwy). Roeddent hefyd yn llai tebygol o roi barn amhendant drwy ddweud

nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon (gwahaniaeth o 6 pwynt canran neu fwy). Er gwaethaf hyn, roedd y cyfrannau o oedolion yng Nghymru a'r Alban a oedd yn dweud y byddent yn 'anfodlon' ar y cwestiwn hwn yn debyg.[2]

Sut y mae safbwyntiau ar gydberthnasau'n amrywio ar draws grwpiau mewn cymdeithas?

Gwelwyd rhai gwahaniaethau clir o ran agwedd yn ôl rhyw i'r tri o'r grwpiau yr holwyd yn eu cylch yn y cwestiwn hwn. Yn gyntaf, roedd dynion yn fwy tebygol o fynegi anfodlonrwydd gyda pherthynas agos yn ffurfio perthynas â rhywun o'r un rhyw na menywod (roedd 29 y cant yn anfodlon o gymharu â 23 y cant o fenywod).

Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, roedd menywod ychydig yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn anfodlon pe bai perthynas agos yn priodi neu'n ffurfio perthynas hirdymor â rhywun ag anabledd dysgu na dynion (13 y cant o fenywod o gymharu â 10 y cant o ddynion) neu geisiwr lloches (39 y cant o fenywod o gymharu â 34 y cant o ddynion).

Roedd rhai gwahaniaethau gwerth eu nodi rhwng teimladau pobl iau a hŷn. Roedd pobl hŷn (55 oed neu'n hŷn) yn llawer mwy tebygol o ddweud y byddent yn *anfodlon* pe bai perthynas agos yn priodi neu'n ffurfio perthynas hirdymor â rhywun o'r holl grwpiau y cyfeiriwyd atynt yn y cwestiwn hwn na phobl iau 16-54 oed (tabl 10.3).

Pobl yn y band oedran ieuengaf (16-34) oedd leiaf tebygol o fod ag agweddau gwahaniaethol, h.y. roeddent yn llai tebygol nag unrhyw grŵp oedran arall o ddweud y byddent yn anfodlon pe bai perthynas agos neu ffrind yn priodi rhywun:

- â chyflwr iechyd meddwl - 23 y cant o gymharu â 30 y cant o bobl 35-54 oed, 48 y cant o bobl 55-64 oed a 58 y cant o bobl 65 oed a hŷn
- sydd o'r un rhyw â hwy eu hunain - 11 y cant o gymharu â 18 y cant, 33 y cant a 52 y cant yn y drefn honno
- sydd ag anabledd dysgu - 1 y cant o gymharu â 6 y cant, 22 y cant a 26 y cant yn y drefn honno.

[2] Dylid trin y gwahaniaethau hyn yn ofalus o gofio bod y ddau arolwg wedi defnyddio dulliau gwahanol.

Roedd y rhai a orffennodd eu haddysg yn 16 oed neu'n iau yn fwy tebygol na'r cyffredin o ddweud y byddent yn anfodlon pe bai perthynas agos yn priodi neu'n ffurfio perthynas hirdymor â rhywun o saith o'r wyth grŵp yr holwyd yn eu cylch yn y cwestiwn hwn. Yr unig grŵp lle nad oedd y gwahaniaeth hwn yn amlwg oedd 'rhywun â chefndir crefyddol gwahanol'. Roedd y gwahaniaethau sylweddol ar gyfer y saith grŵp arall fel a ganlyn:

- rhywun sy'n drawsryweddol - dywedodd 52 y cant y byddent yn anfodlon o gymharu â 45 y cant o'r boblogaeth gyffredinol
- Sipsi/Teithiwr - 43 y cant o gymharu â 38 y cant o'r boblogaeth gyffredinol
- ceisiwr lloches - 44 y cant o gymharu â 37 y cant o'r boblogaeth gyffredinol
- rhywun â chyflwr iechyd meddwl - 44 y cant o gymharu â 37 y cant o'r boblogaeth gyffredinol
- rhywun o'r un rhyw â hwy - 31 y cant o gymharu â 26 y cant o'r boblogaeth gyffredinol
- rhywun ag anabledd dysgu - 14 y cant o gymharu â 11 y cant o'r boblogaeth gyffredinol
- rhywun o gefndir ethnig gwahanol - 12 y cant o gymharu ag 8 y cant o'r boblogaeth gyffredinol.

O ran ethnigrwydd, roedd pobl o gefndir gwyn Prydeinig/Cymreig yn fwy tebygol na phobl o grwpiau ethnig o ddweud y byddent yn anfodlon pe bai perthynas agos yn priodi:

- Sipsi/Teithiwr (roedd 38 y cant yn anfodlon o gymharu â 27 y cant o bobl o gefndiroedd ethnig nad ydynt yn wyn)
- ceisiwr lloches (37 y cant o gymharu ag 20 y cant o bobl o gefndiroedd ethnig nad ydynt yn wyn).

Fodd bynnag, pan holwyd yn fwy cyffredinol ynglŷn â pherthynas agos yn priodi â rhywun o gefndir ethnig gwahanol iddynt hwy, ni welwyd gwahaniaethau rhwng teimladau pobl wyn Brydeinig neu Gymreig ac oedolion nad oeddent yn wyn.

Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, roedd pobl o gefndiroedd ethnig nad oeddent yn wyn yn fwy tebygol o fod ag agweddau gwahaniaethol tuag at ddynion hoyw a menywod lesbaidd nag oedolion gwyn Prydeinig/Cymreig. Dywedodd pedwar o bob deg (40 y cant) y byddent yn anfodlon pe bai perthynas agos yn ffurfio

perthynas hirdymor â rhywun o'r un rhyw â hwy o gymharu â 25 y cant o bobl wyn Brydeinig neu Gymreig.

O ran crefydd, roedd Cristnogion yn llawer mwy tebygol o ddweud y byddent yn anfodlon pe bai perthynas agos yn priodi neu'n ffurfio perthynas hirdymor â rhywun o'r holl grwpiau yr holwyd yn eu cylch yn y cwestiwn hwn ond un na phobl heb grefydd. Nid oedd Cristnogion yn fwy tebygol o fod yn anfodlon pe bai perthynas agos yn ffurfio perthynas â rhywun â chyflwr iechyd meddwl na phobl heb grefydd (tabl 9.3).

Fel y gellid disgwyl, roedd pobl a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda mathau tebyg o bobl yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn anfodlon pe bai perthynas agos yn ffurfio perthynas hirdymor gyda phob un o'r grwpiau yr holwyd yn eu cylch yn y cwestiwn hwn na phobl y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda sawl math gwahanol o bobl. Dangosir y ffigurau yn 10.3.

Tabl 10.3 Yn gyffredinol pa mor fodlon neu anfodlon fyddech chi pe bai perthynas agos i chi yn priodi neu'n ffurfio perthynas hirdymor â ….? Pawb a ddywedodd eu bod yn anfodlon neu'n anfodlon iawn yn ôl is-grŵp demograffig

	Sylfaen heb ei phwysoli, n =	*Sylfaen wedi'i phwysoli, n =*	*Rhywun sy'n drawsrywedol (y cant)*	*Sipsi/Teithiwr (y cant)*	*Ceisiwr lloches (y cant)*	*Rhywun â chyflwr iechyd meddwl (y cant)*	*Rhywun o'r un rhyw â hwy eu hunain (y cant)*	*Rhywun ag anabledd dysgu (y cant)*	*Rhywun o gefndir ethnig gwahanol (y cant)*	*Rhywun o grefydd wahanol iddynt (y cant)*
Cyfanswm	***1589***	***1589***	**45**	**38**	**37**	**37**	**26**	**11**	**8**	**8**
Dynion	*744*	*768*	47	37	34	35	29	10	8	7
Menyw od	*845*	*821*	44	38	39	38	23	13	8	8
Oedran: 16-34	*385*	*413*	33	27	29	23	11	1	2	4
34-54	*598*	*581*	39	31	32	30	18	6	3	6
55-64	*262*	*248*	54	45	42	48	33	22	15	13
65+	*344*	*347*	66	56	50	58	52	26	18	13
Gwyn Prydeinig / Cymreig	*1438*	*1555*	45	38	37	37	25	11	8	8
Arall	*151*	*34*	48	27	20	34	40	13	9	11
AB	*382*	*376*	48	38	33	37	26	12	7	8
C1	*533*	*538*	41	33	31	32	22	8	6	7

C2	*242*	*241*	41	37	38	38	23	11	10	8
DE	*428*	*431*	50	42	45	42	31	16	10	9
Parhau i fod mewn addysg	***78*	*92*	35	34	30	19	12	*	1	2
16 neu'n iau	*638*	*651*	52	43	44	44	31	14	12	9
17-18	*327*	*334*	43	40	38	34	25	12	7	8
19+	*544*	*551*	41	30	27	32	22	9	5	7
Cristion	*1123*	*1144*	49	40	40	38	30	12	9	9
Crefydd arall	*103*	*56*	37	22	24	29	24	13	5	4
Dim crefydd	*349*	*375*	36	32	29	34	15	8	5	4
Gwaha nol fathau o bobl	*236*	*231*	36	25	26	27	17	8	1	5
Pobl debyg	*337*	*342*	68	60	61	53	48	22	24	18
Dim barn bendan t	*1005*	*1005*	40	33	31	34	20	9	4	5

Noder: * Llai na 0.5 y cant. ** yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli llai na 100)

Sut y mae safbwyntiau ar gydberthnasau'n amrywio ar sail adnabyddiaeth o grwpiau penodol?

Mae canfyddiadau'r arolwg yn cefnogi'r farn bod pobl yn llai tebygol o fod ag agweddau gwahaniaethol tuag at bobl o grwpiau sy'n wahanol i'w grwpiau eu hunain os ydynt yn adnabod pobl o'r grwpiau hynny. Lle bu cymhariaeth uniongyrchol yn bosibl, roedd pobl a ddywedodd eu bod yn adnabod rhywun a oedd yn perthyn i grŵp penodol yn llai tebygol na phobl nad oedd ganddynt farn wahaniaethol ar aelod o'r teulu yn datblygu perthynas â hwy.

Roedd tri grŵp y cyfeiriwyd atynt ar y cwestiwn ynglŷn â chydberthnasau hirdymor a'r cwestiwn ynglŷn â rhwydweithiau cymdeithasol, a wnaeth gymhariaeth uniongyrchol yn bosibl[3]. , sef

- rhywun o gefndir hiliol neu ethnig gwahanol
- rhywun â chrefydd wahanol iddynt hwy
- rhywun a oedd yn hoyw, yn lesbaidd neu'n ddeurywiol.

Roedd y rhai a ddywedodd eu bod yn adnabod rhywun o bob un o'r grwpiau hyn yn llai tebygol o ddweud y byddent yn anfodlon pe bai perthynas agos yn priodi neu'n ffurfio perthynas hirdymor â rhywun o'r cefndir hwnnw na phobl na ddywedasant hynny. Roedd y gwahaniaeth hwn fwyaf amlwg mewn agweddau tuag at gydberthnasau hirdymor rhwng parau o'r un rhyw. Roedd y rhai a oedd yn adnabod rhywun a oedd yn hoyw, yn lesbaidd neu'n ddeurywiol 34 pwynt canran yn llai tebygol o ddweud y byddent yn anfodlon pe bai perthynas agos yn priodi neu'n ffurfio perthynas hirdymor â rhywun o'r un rhyw. Felly, mae'r canfyddiadau'n awgrymu y gallai adnabod rhywun o'r grŵp hwn "beri i bobl beidio â chael agweddau gwahaniaethol ar sail tueddfryd rhywiol".[4]

Mae'n ddiddorol nodi bod y gwahaniaeth hwn yn llawer llai amlwg o ran crefydd, er bod y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol o hyd. Roedd y rhai a oedd yn adnabod rhywun o grefydd wahanol iddynt hwy eu hunain ond yn 6 pwynt canran yn llai tebygol o ddweud y byddent yn anfodlon pe bai perthynas agos yn priodi neu'n ffurfio perthynas hirdymor â rhywun o grefydd wahanol na'r rhai nad oeddent yn adnabod rhywun o'r grŵp hwn.

[3] Oherwydd cyfyngiadau o ran amser yn yr arolwg, nid oedd yn bosibl cynnwys yr un wyth grŵp ym mhob cwestiwn

[4] Bromley et al (2007), *Attitudes to Discrimination in Scotland: 2006*, Scottish Centre for Social Research, t19.

Tabl 10.4 Yn gyffredinol pa mor fodlon neu anfodlon fyddech pe bai perthynas agos i chi yn priodi neu'n ffurfio perthynas hirdymor â….? Pawb a ddywedodd eu bod yn anfodlon neu'n anfodlon iawn yn ôl adnabyddiaeth o grwpiau.

	Sylfaen heb ei phwysoli, n =	Sylfaen wedi'i phwysoli, n =	*Rhywun o gefndir ethnig gwahanol (y cant)*	*Rhywun o'r un rhyw â hwy eu hunain (y cant)*	*Rhywun o grefydd wahanol iddynt (y cant)*
Cyfanswm	1589	1589	8	26	8
Oedd, yn adnabod rhywun o'r grŵp hwn	1589	1589	5	17	7
Na	1589	1589	17	51	13
Gwahaniaeth	-	-	12	34	6

Crynodeb

Roedd gan o leiaf dri chwarter o oedolion yng Nghymru gysylltiadau cymdeithasol a oedd yn cynnwys pobl a oedd:

- yn iau neu'n hŷn o 20 mlynedd neu fwy na hwy
- rhywun â chrefydd wahanol iddynt hwy
- yn dod o gefndir hiliol neu ethnig gwahanol iddynt hwy
- yn anabl
- yn hoyw, yn lesbaidd neu'n ddeurywiol.

Mae'n galonogol bod bron hanner y boblogaeth neu fwy wedi dweud bod rhywun o un o'r grwpiau hyn yn gyfaill iddynt.

Pan holwyd pobl sut y byddent yn teimlo pe bai perthynas agos iddynt yn priodi neu'n ffurfio perthynas hirdymor â rhywun o grŵp lleiafrif penodol, roedd y canlyniadau yn amrywio eithaf tipyn yn dibynnu ar y grŵp dan sylw.

O ran pedwar o'r wyth grŵp, roedd oedolion yng Nghymru ag agweddau gwahaniaethol yn y lleiafrif, gyda mwy o bobl yn dweud y byddent yn fodlon pe bai perthynas agos yn priodi neu'n ffurfio perthynas hirdymor â rhywun o bob un o'r grwpiau nag a fyddent yn anfodlon, fel a ganlyn:

- rhywun o gefndir ethnig gwahanol
- rhywun o grefydd wahanol iddynt hwy
- rhywun ag anabledd dysgu
- rhywun o'r un rhyw â hwy eu hunain.

Roedd safbwyntiau ynglŷn â cheiswyr lloches, Sipsiwn/Teithwyr a'r rhai â chyflwr iechyd meddwl yn llai cadarnhaol, gyda chyfrannau tebyg o oedolion yn dweud y byddent yn fodlon neu'n anfodlon. Roedd agweddau gwahaniaethol yn fwy amlwg tuag at bobl a oedd yn drawsryweddol: roedd oedolion yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn anfodlon nag yn fodlon pan ofynnwyd iddynt ddychmygu eu hymateb pe bai perthynas agos yn ffurfio perthynas hirdymor â rhywun o'r grŵp hwn.

Dangosodd y canlyniadau lle roedd cymhariaeth uniongyrchol yn bosibl, fod pobl a oedd yn adnabod rhywun o un o'r grwpiau yr ymchwiliwyd iddynt yn llai tebygol o fod ag agweddau gwahaniaethol tuag at eu teulu yn datblygu cydberthnasau ag unigolion o'r grŵp hwnnw. Roedd pobl a oedd yn adnabod rhywun o gefndiroedd ethnig neu grefyddol gwahanol, neu a oedd yn adnabod pobl a oedd yn hoyw, yn lesbaidd neu'n ddeurywiol yn llai tebygol o ddweud y byddent yn anfodlon pe bai perthynas agos yn priodi â rhywun o'r grwpiau hyn na'r rhai nad oeddent yn adnabod rhywun o'r grwpiau hyn. Mae hyn yn tanlinellu manteision cadarnhaol rhwydweithiau cymdeithasol amrywiol.

Nodiadau

Mae rhagor o wybodaeth am yr ymchwil ar gael ar dudalennau'r Comisiwn yng Nghymru ar ein gwefan yn:

www.equalityhumanrights.com

Ynglŷn â'r arolwg o agweddau

Comisiynodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru GfK NOP i ymgymryd ag ymchwil i agweddau pobl tuag at wahaniaethu, hawliau dynol a chydlyniant cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ymchwil yn ceisio archwilio agweddau pobl tuag at wahaniaethu o ran rhyw, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, dynion hoyw a lesbiaid, materion o ran oedran, crefydd a ffydd a hefyd y Gymraeg. Mae'r canlyniadau hyn yn rhoi mesur sylfaenol o agweddau y gellid eu mesur eto yn y dyfodol.

Roedd y sampl yn cynnwys 1,589 o ymatebwyr. Cynhaliwyd yr arolwg dros y ffôn. Cafodd pob ymatebwr y dewis o gwblhau'r arolwg yn Gymraeg. Ymdriniwyd â materion o ran mynediad drwy gynnig y cyfle i ddefnyddio gwasanaeth TypeTalk i'r rhai â nam ar y clyw. I'r rhai a gafodd anhawster i gyfathrebu yn Saesneg cynigiwyd y cyfle i ddefnyddio Llinell Iaith i gyfieithu'r cyfweliad.

Roedd y dull samplu a ddefnyddiwyd yn yr arolwg yn cyfuno dewis rhifau drwy Ddeialu Digidau ar Hap (RDD) a defnyddio cwotas i reoli proffil y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg. Pennwyd cwotâu yn ôl rhanbarth yng Nghymru (pum rhanbarth), yn ôl rhyw ynghyd â statws gwaith, yn ôl band oedran ac yn ôl tarddiad ethnig yn seiliedig ar wybodaeth ddemograffig a gafwyd o Gyfrifiad 2001. Pennwyd y rhain i sicrhau y byddai'r sampl yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru yn ôl y ffactorau hyn.

Hybwyd cyfweliadau mewn ardaloedd lle roedd cyfran uwch o bobl o leiafrifoedd ethnig yn y boblogaeth.

Cymharu â'r Alban a Phrydain Fawr

Cymharwyd y canfyddiadau ag Arolwg 2006 o Agweddau Cymdeithasol yn yr Alban a'r archwiliad o ganfyddiadau a gynhaliwyd gan GfK NOP. Dylid nodi mai dim ond cymharu'n fras y gellir ei wneud am fod methodolegau gwahanol wedi'u defnyddio yn y ddau arolwg hyn. Felly, mae'n rhaid trin unrhyw debygolrwydd neu wahaniaeth rhwng canfyddiadau'r arolygon hyn a chanlyniadau arolwg y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru fel rhai dangosol yn hytrach na rhai absoliwt.